## TELERAU AC AMODAU

Mae'r cynllun aelodaeth hwn wedi'i weithredu gan Gyngor Sir Fynwy i gynyddu effeithlonrwydd a diogelwch i'r defnyddiwr yn ei bedair canolfan hamdden. Trwy ddod yn aelod, rydych yn cytuno i'r telerau ac amodau hyn fel y nodir isod. Mae aelodaeth yn agored i bob cwsmer, fodd bynnag, gall y cyngor dynnu aelodaeth yn ôl oherwydd unrhyw gamddefnydd o'r cerdyn, neu dorri telerau ac amodau'r aelodaeth.

Cyfrifoldeb y cwsmer ydyw i sicrhau eu bod yn gwirio'r gostyngiad y gallai fod ganddynt hawl iddo cyn ymuno ag un o'n pecynnau aelodaeth a thrwy gydol eu haelodaeth. Ni roddir ad-daliadau os yw'r cwsmer ar yr aelodaeth anghywir.

## TELERAU AC AMODAU AR GYFER AELODAU YMRODDEDIG

### - BETH YW AELODAETH YMRODDEDIG?

Mae'r aelodaeth hon wedi'i datblygu i wobrwyo eich ymrwymiad i iechyd a ffitrwydd. Drwy ddechrau'r aelodaeth hon, fel aelod newydd, mae gennych hawl i becyn ymuno sy'n cynnwys y sesiwn ymarfer cyntaf am ddim gyda thair sesiwn ffitrwydd 1-2-1 arall.
Byddwch hefyd yn talu cyfradd fisol is. Mae'n rhoi'r hawl i chi gael mynediad i Ystafelloedd Ffitrwydd, Dosbarthiadau Ymarfer Corff, Pyllau Nofio ac Ystafelloedd Iechyd ym mhedair Canolfan Hamdden Cyngor Sir Fynwy ar yr amod bod yr aelodaeth wedi cael ei thalu'n gyfredol. Mae isafswm cyfnod y contract.

### PA MOR HIR FYDD FY AELODAETH YMRODDEDIG YN PARA?

Trwy lofnodi'r 'Telerau ac Amodau Aelodaeth Ymroddedig', byddwch yn cytuno i wneud taliad o flaen llaw ac o leiaf 6 taliad debyd uniongyrchol yn olynol, bydd eich 'Aelodaeth Ymroddedig' yn parhau i redeg tan y byddwch yn ei ganslo.

### BETH SY'N DIGWYDD OS BYDDAF YN CANSLO FY AELODAETH YMRODDEDIG YN GYNNAR?

Byddwch yn derbyn anfoneb am weddill eich aelodaeth sy'n weddill, eich ymarfer cyntaf a'r tair sesiwn ffitrwydd un i un arall, ynghyd â ffi weinyddol. Bydd mynediad i gyfleusterau yn cael ei wrthod yn ystod y cyfnod hwn ni fydd y cyfnod hwn yn cael ei ôl-ddyddio.

Bydd methu â chydymffurfio â hyn yn arwain at eich manylion yn cael eu trosglwyddo i'n hadran adfer dyledion er mwyn iddynt gasglu'r ffioedd sy'n weddill. Nodwch y bydd hyn yn effeithio ar eich statws credyd.

## TELERAU AC AMODAU AR GYFER POB AELODAETH DEBYD

### UNIONGYRCHOL - SUT MAE GWNEUD TALIADAU?

Bydd taliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol a byddant yn cael eu didynnu ar y 15^fed^ diwrnod o bob mis, neu'r diwrnod gwaith agosaf ar ôl hynny os yw'r 15^fed^ yn disgyn ar benwythnos neu ŵyl banc, gyda phob taliad yn cael ei wneud ar gyfer y mis i ddilyn. Bydd y cyngor yn rhoi un mis o rybudd o unrhyw gynnydd mewn prisiau, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol.

### BETH SY'N DIGWYDD OS YW FY NHALIAD UNIONGYRCHOL YN CAEL EI WRTHOD?

Os bydd eich banc yn gwrthod eich taliad misol oherwydd nad oes digon o arian, gofynnir i chi dalu'r swm hwn yn y Ganolfan Hamdden a bydd methu â gwneud hyn yn golygu y gofynnir am daliad dwbl o'ch cyfrif banc yn y mis canlynol. Gofynnir am daliad ysgrifenedig o fewn saith diwrnod er mwyn i'ch aelodaeth barhau'n ddi-dor.

### BETH SY'N DIGWYDD OS NA ALLWN GASGLU EICH TALIADAU?

Os bydd gwall prosesu Debyd Uniongyrchol (h.y. manylion bancio anghywir, amser prosesu annigonol ac ati), bydd angen talu taliadau a fethwyd yn y Ganolfan Hamdden, neu bydd taliad dwbl yn cael ei gasglu ar y rhediad prosesu debyd uniongyrchol nesaf. Os byddwch yn newid eich manylion banc, cysylltwch â'r tîm Gweinyddu Aelodaeth.

### AD-DALIADAU A CHYFNOD AILFEDDWL

Bydd unrhyw gais am ad-daliad a therfyniad a wnaed o fewn y saith diwrnod cyntaf ar ôl ymuno yn cael ei anrhydeddu'n llawn, ar yr amod nad oes unrhyw gyfleusterau na gwasanaethau wedi'u defnyddio. Os defnyddiwyd cyfleusterau neu wasanaethau o fewn y saith diwrnod cyntaf, yna didynnir didyniad ar gyfer y costau hyn o unrhyw ad-daliad a roddir. NI ELLIR RHOI AD-DALIADAU AR ÔL Y CYFNOD AILFEDDWL. Mae unrhyw ad-daliadau a roddir yn amodol ar ffi weinyddol o £10.00.

### SUT YDW I'N CANSLO FY AELODAETH DEBYD UNIONGYRCHOL?

**Gellir ond canslo aelodaeth Debyd Uniongyrchol trwy gysylltu â'r Tîm Gweinyddu Aelodaeth erbyn y 10^fed^ o'r mis, naill ai dros y ffôn neu drwy e-bost.** Unwaith y byddwch wedi cysylltu â'r tîm aelodaeth, fe'ch cynghorir hefyd i gysylltu â'ch banc i'w hysbysu o'r canslo. Ni ellir prosesu unrhyw ganslo yn unrhyw un o Ganolfannau Hamdden Cynghorau Sir Fynwy, na thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.
Nodwch mai dim ond deiliad y cyfrif all ganslo'r cyfarwyddyd debyd uniongyrchol.

### DIM TROSGLWYDDO

Ni allwch drosglwyddo'r aelodaeth i unrhyw berson, cynnyrch neu wasanaeth arall.

### BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDDAF YN 18 NEU 60 OED?

Bydd eich swm debyd uniongyrchol misol yn addasu'n awtomatig yn y mis ar ôl i chi gyrraedd eich 18^fed^ neu 60^fed^ pen-blwydd. Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw newidiadau o'r fath o flaen llaw.

### NEWIDIADAU I'R TELERAU AC AMODAU

Gellir newid y telerau ac amodau hyn yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar unrhyw adeg.

### MATERION ERAILL

Bydd gwiriadau diogelwch ar fanylion aelodau'n cael eu cynnal ar adeg ymuno â'r cynllun aelodaeth. Nodwch y gall yr amserlenni gwahanol amrywio o safle i safle ac maent yn destun newid. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl yn ôl ei ddisgresiwn i wneud newidiadau a diwygiadau i'r aelodaeth, a gall dynnu'r cynllun yn ôl ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw aelod nad yw'n cydymffurfio â'r telerau ac amodau, neu'n syn dangos unrhyw ymddygiad amhriodol tuag at aelod o staff, neu sy'n camddefnyddio'r cyfleusterau neu offer, yn cael eu haelodaeth wedi'i thynnu'n ôl. Os oes unrhyw newid enw a chyfeiriad, neu wybodaeth arall sy'n berthnasol i'ch pecyn aelodaeth, neu os bydd digwyddiad, damwain neu anaf sy'n golygu na allwch ddefnyddio eich aelodaeth, cysylltwch â'r tîm aelodaeth ar unwaith. Byddwch yn gallu trafod gwahanol opsiynau sydd ar gael i chi er mwyn cyflawni'r telerau ac amodau rydych chi wedi cytuno arnynt.

Rhoddir cerdyn aelodaeth yn rhad ac am ddim, fodd bynnag os caiff ei golli neu ei ddifrodi, codir ffi am amnewidiad. Bydd eich ffotograff yn cael ei dynnu yn y dderbynfa at ddibenion diogelwch. Os byddwch yn colli'ch cerdyn, rhowch wybod i'ch Canolfan Hamdden leol.

Gellir archebu'r rhan fwyaf o weithgareddau y gellir eu harchebu, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd ar-lein, hyd at saith diwrnod o flaen llaw neu yn y dderbynfa ar ddiwrnod y gweithgaredd.

Rhaid i bob cwsmer, boed yn aelod Debyd Uniongyrchol neu'n aelod Blynyddol, gasglu derbynneb o'r dderbynfa ar gyfer pob gweithgaredd y gellir ei archebu.

Cyfeiriwch at bob canolfan unigol ar gyfer cyfleusterau ac amserlenni penodol

### ORIAU AGOR

Mae pob Canolfan Hamdden ar gau dros wyliau banc a gwyliau statudol. Mae cyfnodau cau neu aflonyddwch eraill, ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol, adnewyddu cyfleusterau neu iechyd a diogelwch a hyfforddiant, wedi'u cynnwys ym mhrisiau'r aelodaeth.

### ARCHEBION AR-LEIN (Gellir dod o hyd i'r Telerau ac Amodau llawn ar y safle archebu ar-lein)

Fel rhan o'ch aelodaeth Debyd Uniongyrchol mae gennych hawl i archebu cyfleusterau ar-lein gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd.
Bydd angen eich cerdyn aelodaeth unigol arnoch i wneud unrhyw archebion ar-lein.
Gellir archebu'r rhan fwyaf o weithgareddau y gellir eu harchebu, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd, saith diwrnod o flaen llaw.* Byddwch yn derbyn cadarnhad e-bost unwaith y bydd eich archeb wedi'i gwneud.
Bydd unrhyw archebion, na fynychir neu y telir amdanynt, yn destun taliad llawn a bydd cyfyngiad yn cael ei osod ar y system hyd nes y bydd y ddyled wedi'i thalu.
Rhaid casglu tocynnau ar gyfer unrhyw archebion o'r dderbynfa ar ôl cyrraedd adeg yr archeb.
Rhaid canslo archebion ar-lein ac os na allwch wneud hyn, gallwch gysylltu â'r Ganolfan Hamdden berthnasol yn uniongyrchol yn ystod oriau agor.
Eich cyfrifoldeb chi yw canslo unrhyw archebion cyn gynted â phosibl.
Gwiriwch fod yr holl fanylion yn gywir cyn cyflwyno eich archeb.

* Yn amodol ar newid.

### AMSEROEDD AGOR SWYDDFA'R TÎM GWEINYDDU AELODAETH

Dyddiau Llun i Iau 9.00am - 5.00pm, Dydd
Gwener 9.00am - 4.30pm
Rhif Ffôn: 01633 644800
E-bost: MonMemberships@monmouthshire.gov.uk

monmouthshire
sir fynwy